

## ANWYL (teulu), Parc, Llanfrothen, Sir Feirionnydd.

Y mae Anwyliaid y Parc, Llanfrothen, yn disgyn o Robert ap Morris, Park (bu farw 1576), pedwerydd mab y **Morris ap John ap Meredydd**, Rhiwaedog, y ceir ei hanes yn llyfr *Syr John Wynn, The history of the Gwydir family*. Cymerodd meibion iau Robert ap Morris y cyfenw Roberts, e.e. John Roberts, Vaner, gerllaw Dolgellau, oedd tad David Roberts, rheithor Llanbedrog, caplan i iarll Warwick, eithr glynodd disgynyddion Lewis Anwyl (bu farw 1605) wrth y cyfenw teuluol.

Yr oedd WILLIAM LEWIS ANWYL (bu farw 1642) yn ynad heddwch ac yn ddirprwy raglaw ei sir; bu'n siryf Meirionnydd yn 1610, ac yr oedd yn flaenllaw mewn materion cyhoeddus. Prynodd Llwyn, Dolgellau, ailadeiladodd Parc, ac ychwanegodd yn ddirfawr at ei ystad trwy briodi Elizabeth Herbert, aeres o Sir Drefaldwyn, ac at ei ddyllanwad ei hun trwy drefnu i'r rhan fwyaf o'i blant briodi aerod neu aeresau teuluoedd cymdogion iddo. Bu LEWIS ANWYL, mab hynaf y briodas, farw yn 1641 yn ystod y flwyddyn yr oedd yn siryf gan adael unig ferch, CATHERINE, a briododd **William Owen**, Brogyntyn, gerllaw Croesoswallt.

Parhawyd gwaith y tad gan RICHARD ANWYL, y mab ieuengaf. Bu ef yn siryf Meirionnydd yn 1658 a 1659; enwyd ef yn un o'r rhai a oedd i gael eu gwneuthur yn 'Knights of the Royal Oak'; bu'n ddirprwy raglaw sir Feirionnydd, eithr bu farw yn ddi-blant yn Llwyn yn 1685. Bu ROBERT ANWYL, ail fab Lewis Anwyl, yn arwain Pryne ar fordaith beryglus o Gaernarfon i ynys Jersey yn 1637; dirwywyd ef i'r swm o £1,200 am ei deyrngarwch yn rhoddi benthyg £300 i Siarl I yn ystod y Rhyfel Cartrefol; bu'n siryf Meirionnydd yn 1650. Pan fu farw yn 1653 gadawodd ddau fab ieuanc - LEWIS ac OWEN, a oroeswyd gan eu mam, **KATHERINE ANWYL**, gwraig o gymeriad cryf a noddwr i lenyddiaeth Cymru. Bu LEWIS farw yn 1678 ac OWEN yn 1695; yr oedd Owen yn ynad heddwch ac yn byw yn Plasnewydd, plwyf Llanfrothen. Bu ei mam farw yn Marl yn 1700.

Unig fab Lewis Anwyl, a fu farw yn 1678 (yr olaf o'r llinach), oedd WILLIAM LEWIS ANWYL, Cemmaes Bychan, Sir Drefaldwyn. Yr oedd yn siryf Meirionnydd; bu farw yn King Street, Westminster, ym mis Chwefror 1700/1, yn ddi-blant, a chladdwyd ef yn abaty Westminster. Ychydig ddyddiau cyn marw newidiodd atodiad a ychwanegasai yn ei ewylllys; trwy'r atodiad hwn yr oedd wedi trefnu i'w ystad yn Sir Drefaldwyn fyned i Catherine, merch Owen Anwyl a gweddw **Syr Griffith Williams**, barwnig, Marl, eithr yn ôl y trefniant newydd a wnaethpwyd gandd'o yr oedd i fyned i'w gefndyr, **Oweniaid** Porkington (Brogyntyn yn awr), a blwydd-dâl o £100 dros byth i'w dalu i Anwyliaid Bodallog, Tywyn, Meirionnydd, ei etifeddiion yn ôl y gyfraith. Bu'r ewylllys hon yn achos cyfreithio am flynyddoedd lawer; o'r diwedd daeth yr eiddo i feddiant teulu **Williams** y Marl a theulu **Oweniaid** Brogyntyn a Glyn. Buwyd yn codi arian ar Parc a Llwyn yn 1748, a gwerthwyd hwynt yn gynnar wedi 1761.

Gwisgai'r Anwyliaid arfbais **Owain Gwynedd** - 'Vent, three eagles displayed in fess Or.'

## Awdur

**Philip Hugh Lawson**

## Ffynonellau

Sir John Wynn, *The History of the Gwydir Family* (1927)

*Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarendieux and Norroy, two kings at arms*(Llandovery 1846), ii, 71, 215

*Archaeologia Cambrensis*, 1942, xcvi

Archifau LIGC: Peniarth MS 116: Barddoniaeth Siôn Cain

Archifau LIGC: Peniarth MS 117: Barddoniaeth Rhys a Siôn Cain

Archifau LIGC: Peniarth MS 121: Poetry, &c.

Archifau LIGC: Peniarth MS 124: Barddoniaeth Owen Griffith a Griffith Phylip

Archifau LIGC: Peniarth MS 288: Pedigrees

Archifau LIGC: Gwydir Papers

Archifau LIGC: Brogyntyn Letters and Papers

P.R.O., *Calendar of State Papers, Domestic Series*, Chancery Proceedings. Welsh Plea Rolls, Fines and Recoveries

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q4778096

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwci  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu



LLYFRGEL  
THE NATION



Wedi'i gerbydoli gan  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government